

GREEN GEN TOWY TEIFI

Rhwydwaith trydan cryfach a mwy gwydn i Gymru.

Ymgynghoriad 5 Mawrth-16 Ebrill 2025

Cwestiynau cyffredin

Ynglŷn â Green GEN Cymru

C Pwy yw Green GEN Cymru?

A Mae Green Generation Energy Networks Cymru (Green GEN Cymru) yn datblygu rhwydweithiau ynni gwyrdd i ddiwallu anghenion pobl, cymunedau a busnesau'r wlad yn y dyfodol.

Yn 2024, cawsom drwydded Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO) gan Ofgem. Fel IDNO, byddwn yn dylunio, adeiladu a chynnal rhwydwaith dosbarthu trydan 132 kV (132,000 folt) newydd i gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd â'r rhwydwaith trawsyrru trydan, gan helpu i gael ynni gwyrdd i gartrefi a busnesau.

Bydd ychwanegu capasiti grid mawr ei angen a galluogi ffynonellau ynni adnewyddadwy newydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar gymunedau lleol ledled y wlad. Mae cysylltu safle cynhyrchu lleol â'r Grid Cenedlaethol yn hanfodol er mwyn gwella ein hannibyniaeth a'n chydnerthedd ynni, gan ein gwneud yn llai agored i doriadau cyflenwad ynni'r DU. Bydd ein rhwydwaith newydd yn creu swyddi ac yn ysgogi twf economaidd, yn lleihau llygredd ac yn gwella iechyd y cyhoedd.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda chymunedau a rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, i sicrhau'r buddion mwyaf posibl a lleihau'r effeithiau i bobl leol. Gallwch ddarganfod mwy ar wefan Green GEN Cymru

www.greengencymru.com/cy/

C Beth yw eich perthynas â Bute Energy?

A Mae Grŵp Ynni Windward yn cynnwys Green GEN Cymru, Bute Energy a Haldane Energy. Fel busnes a reoleiddir, mae Green GEN Cymru ar wahân yn gyfreithiol ac yn cael ei reoli a'i weithredu'n annibynnol.

Ym mis Gorffennaf 2024, daeth Green GEN Cymru yn fusnes annibynnol a reoleiddir gan Ofgem ac mae bellach yn gweithredu o dan drwydded Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO). O dan y drwydded hon rhaid i Green GEN Cymru drin pob cwsmer (boed yn ddefnyddiwr neu'n gynhyrchydd ynni newydd) yn gyfartal. Mae Bute Energy yn gwsmer i Green GEN Cymru ac mae ganddo gytundebau cysylltiad ar waith.



Ynglŷn â'r cynigion

C Pa mor hir fydd y llinell uwchben a faint o beilonau byddwch chi'n eu defnyddio?

A Mae aliniad arfaethedig y llwybr drafft ar gyfer y cysylltiad oddeutu 52km o hyd. Byddai'r aliniad llwybr drafft presennol angen tua phedwar peilon fesul cilometr. Bydd gan y rhain uchder cyfartalog o 29.5 metr.

Dyma'r peilonau lleiaf sydd ar gael i ni i gludo'r maint o bŵer a gynhrychir. Mae dyluniad y cysylltiad yn dal yn agored i newid yn seiliedig ar adborth a'n hasesiadau ni ein hunain.

C Pam ydych chi'n dewis defnyddio peilonau ar gyfer y prosiect?

A Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO) mae gennym ddyletswydd o dan y Ddeddf Trydan i fod yn ddarvoudus ac yn effeithlon gan fod cost pob cysylltiad yn cael ei drosglwyddo i ddefnyddwyr trydan.

Ers ein hymgyngoriad cyntaf, rydym wedi ailasesu gosod o dan y ddaear, gan gynnwys ceblau ffos agored ac aredig ceblau. Mae'r ddau yn ddrutach na datblygu llinellau uwchben ar beilonau. Mae hyn oherwydd cost y ceblau a'r gofynion adeiladu.

Rydym wedi ymrwymo i gadw effeithiau ar gymunedau lleol a'r amgylchedd mor fach â phosibl. O ganlyniad i adborth y cyhoedd ac asesiadau amgylcheddol a thechnegol pellach, rydym yn cynnig dwy ran ar wahân o dan y ddaear ger Bryn Myrddin ac is-orsaf newydd Llandyfaelog. Gan fesur cyfanswm o tua 5km, cynigir gosod ceblau o dan y ddaear yn y lleoliadau hyn er mwyn diogelu treftadaeth ddiwylliannol Bryn Myrddin a lleihau effaith gronol seilwaith trydan yn Llandyfaelog.

Mae ceblau tanddaearol fel arfer angen mwy o dir ac yn achosi mwy o darfu ar y ddaear yn ystod y gwaith adeiladu, sydd â'r potensial i gynhyrchu effeithiau ecolegol ac archeolegol mwy arwyddocaol, y mae'n rhaid i ni eu hystyried hefyd.

Gellir datblygu llinellau uwchben yn gyflymach hefyd. Mae hyn yn allweddol os ydym am ddod ag ynni carbon isel i gartrefi a busnesau cyn gynted â phosibl.

Er nad yw'n ymddangos bod cost un cysylltiad newydd yn ychwanegu llawer at filiau trydan, pan ystyrir cynnal ac adeiladu'r holl gysylltiadau ledled Cymru, byddai'r costau i ddefnyddwyr yn sylweddol pe bai cysylltiadau'n cael eu rhoi o dan y ddaear.

C A allech chi ddefnyddio polion pren ar gyfer y cysylltiad yn lle peilonau?

A Er mwyn darparu digon o gapasiti ar gyfer yr holl ynni carbon isel a gynigir, mae angen dau gylched 132 kV arnom. Dim ond un cylched y gall polion pren eu cario, felly byddai defnyddio polion pren yn gofyn am gysylltiadau lluosog i gludo'r un faint o drydan.

C Beth yw statws y ffermydd gwynt rydych chi'n bwriadu eu cysylltu?

A Mae gennym gytundebau cysylltiad gyda datblygiad ynni Lan Fawr ac eraill. Mae mwy o fanylion am y rhain yn ein Strategaeth Cysylltiad Grid Cam 2 wedi'i diweddarau, sydd ar gael ar ein gwefan.

Bydd y datblygiadau ynni i gyd yn mynd trwy gamau ymgynghori eu hunain yn unol â'r broses gynllunio a bydd angen i bawb ofyn am y caniatâd angenrheidiol i'w hadeiladu. Mae datblygwyr y parciau ynni yn gyfrifol am ddatblygu eu cynlluniau gan gynnwys unrhyw ofynion ar gyfer ymgynghori ac asesu.

C Pam ydych chi'n datblygu'r cysylltiad cyn i'r ffermydd gwynt gael caniatâd cynllunio

A Gall y datblygiadau ynni a'r cysylltiadau newydd gymryd sawl blwyddyn i'w cynllunio, i gael cydsyniad a'u hadeiladu, felly mae'n arfer arferol i brosiectau cynhyrchu ynni a chysylltiadau newydd gael eu datblygu ochr yn ochr.

C Beth yw statws is-orsaf y Grid Cenedlaethol y byddai ei hangen ger Llandyfaelog?

A Mae'r Grid Cenedlaethol wedi nodi ardal lle mae'n rhagweld y bydd yn datblygu'r is-orsaf a fyddai'n derbyn ein cysylltiad. Rydym wedi ystyried yr ardal hon wrth ddylunio aliniad y llwybr drafft ac yn yr asesiad amgylcheddol rhagarweiniol.

Bydd y Grid Cenedlaethol yn datblygu ei gynlluniau ar gyfer yr is-orsaf, gan gynnwys unrhyw ofynion ar gyfer ymgynghori ac asesu ar wahân o Green GEN Cymru. I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Grid Cenedlaethol www.nationalgrid.com/electricity-transmission/network-and-infrastructure/infrastructure-projects/llandyfaelog-substation

Ynglŷn â'r cynigion

C Pwy fyddai'n elwa ar yr ynni sy'n cael ei gynhyrchu?

A Bydd cysylltiad Tywi Teifi yn cyfrannu at rwydwaith trydan mwy cydnerth, yn lleddfu'r pwysau ar y grid lleol presennol, yn cefnogi busnesau, a gallai helpu i alluogi cyflwyno gwresogi gwyrdd a cherbydau trydan mewn cymunedau gwledig. Bydd yn cludo pŵer o'r man lle caiff ei gynhyrchu, i'r rhwydwaith trawsyrru cenedlaethol yn Sir Gaerfyrddin, lle gellir ei ddosbarthu wedyn drwy'r grid. Mae hyn yn golygu y bydd ynni sy'n cael ei greu gan ffermydd gwynt sy'n defnyddio cysylltiad Tywi Teifi yn cyflenwi ynni i gartrefi a busnesau ar draws y wlad.

Mae gan Green GEN Cymru drwydded Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO). Mae'r drwydded IDNO yn ein galluogi i weithredu rhwydweithiau dosbarthu trydan, gan gefnogi'r galw cynyddol am seilwaith ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y gallwn ymateb i geisiadau cysylltiad cwsmeriaid ar gyfer defnyddio ynni a chynhyrchu ynni.

Fel hyn, gallai'r cysylltiad newydd hefyd ddod yn rhan o rwydwaith mwy cydnerth ar gyfer y rhanbarth - gan greu capasiti i gefnogi buddsoddiad lleol a darparu ar gyfer dyfodol pan fyddwn ni i gyd yn defnyddio mwy o drydan.

C Sut bydd y prosiect o fudd i'r economi leol?

A Ynglŷn â chysylltu ynni adnewyddadwy yn gyflym ac yn effeithlon â'r grid, bydd ein prosiect hefyd yn cyfrannu at rwydwaith mwy cydnerth a dibynadwy ar gyfer y rhanbarth. Trwy ychwanegu capasiti trydanol ychwanegol, gallai prosiect Tywi Teifi greu y potensial ar gyfer buddsoddi busnes yn yr ardal, gan gefnogi creu swyddi a sgiliau.

Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi yng Nghymru a chefnogi'r economi leol yn ardal ein prosiectau. Rydym yn dal i fod ar gam cynnar datblygu prosiect, ond byddwn yn darparu cyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi leol lle bynnag y bo modd.

C A oes gan Green GEN Cymru gronfa budd cymunedol?

A Nac oes, ond trwy gysylltu prosiectau fferm wynt Bute Energy, mae'r cymunedau agosaf at ein llinellau grid hefyd yn gymwys i wneud cais i Gronfa Budd Cymunedol unigryw Bute Energy.

Ac yn werth miliynau o bunnau'r flwyddyn, bydd yr arian hwn ar gael i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer mentrau sy'n gwella ansawdd

bywyd aelodau'r gymuned, yn helpu i sicrhau annibyniaeth ynni glân, meithrin ymgysylltiad, a mynd i'r afael â phryderon cymdeithasol ac economaidd – dull gweithredu unigryw ym Mhrydain. Gweinyddir gan Bute Energy, ewch i'w tudalen we bwrsol am ragor o wybodaeth <https://bute.energy/community-benefits/?lang=cy>

C Sut bydd y prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth?

A Mae newid hinsawdd yn cael effaith ddramatig ar blanhigion ac anifeiliaid - diogelu bioamrywiaeth yw un o'r prif ysgogwyr ar gyfer symud i ffwrdd o danwydd ffosil. Mae diwallu anghenion y byd naturiol gyda'r seilwaith sydd ei angen arnom i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn gofyn am gydbwysedd gofalus. Bydd datblygu seilwaith mawr bob amser yn cael effeithiau ar yr amgylchedd, ond gall hefyd fod yn gyfle i fuddsoddi mewn bioamrywiaeth a'i wella. Byddwn yn ceisio cadw unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth mor fychan ag y gallwn yn y penderfyniadau a wnawn.

C Sut byddwch chi'n rheoli effeithiau amgylcheddol y prosiect?

A Rydym wedi ymrwymo i leihau effaith amgylcheddol ein cynigion. Bydd effaith amgylcheddol y prosiect yn cael ei hasesu drwy Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn ein dyluniad terfynol ar gyfer y llinell uwchben a'r is-orsaf. Bydd yr asesiad hwn yn ymchwilio i effeithiau amgylcheddol posibl ein cynigion ac yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu lliniaru'r effeithiau hyn. Bydd y canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn y Datganiad Amgylcheddol, a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'n cais am ganiatâd cynllunio.

Byddwn yn cydweithio'n agos â chyrff arbenigol, grwpiau amgylcheddol lleol, tîrfeddiannwyr, a chymunedau lleol i drafod ein canfyddiadau ac i ymgynghori ynghylch ein hargymhellion ar gyfer rheoli unrhyw effeithiau posibl.

Yn unol â'r canllawiau presennol yng Nghymru, ein nod yw cyflawni budd net ar gyfer bioamrywiaeth yn yr ardal. Trwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid perthnasol, rydym yn ymdrechu i sicrhau o leiaf enillion net o 10% mewn gwerth bioamrywiaeth o'i gymharu â gwerth bioamrywiaeth y cynefin ar y safle cyn y datblygiad.

Ynglŷn â'r cynigion

C **Sut ydych chi'n bwriadu rheoli traffig adeiladu ar ffyrdd lleol a pha lwybrau trafndiaeth ydych chi'n bwriadu eu defnyddio?**

A Rydym wedi ymrwymo i achosi'r anghyfleuster lleiaf posibl i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd o amgylch ein cynigion. Byddwn yn derbyn cyngor gan randdeiliaid technegol ac yn ystyried effaith y prosiect ar ffyrdd lleol fel rhan o asesiad traffig a thrafnidiaeth, sy'n un o ofynion y broses y byddwn yn ei dilyn i gyflwyno cais cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn bwriadu rheoli traffig adeiladu, gan gynnwys unrhyw effeithiau posibl. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal cysylltedd rhwng trefi a phentrefi cyfagos a byddwn yn sicrhau nad yw ein gwaith yn ei gwneud hi'n anodd i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

C **A fydd y llinell uwchben yn creu unrhyw sŵn?**

A Weithiau gall llinellau foltedd uchel uwchben gynhyrchu sŵn, o dan amodau penodol. Mae hyn yn aml yn swnio fel naill ai sain clecian neu sŵn mwmian ac mae'n digwydd yn bennaf yn ystod tywydd gwlyb. Gall sŵn hefyd ddigwydd o ganlyniad i wynt yn chwythu heibio'r llinell neu'r peilonau. Bydd unrhyw effeithiau sŵn posibl yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA). Byddwn bob amser yn sicrhau bod dyluniad y llinell uwchben yn ystyried yn ofalus unrhyw effeithiau ar y gymuned leol.

Ynglŷn â'r cynigion


C **Beth yw meysydd trydan a magnetig (EMFs) ac a ydyn nhw'n ddiogel?**

A Cynhyrchir Meysydd Trydan a Magnetig (EMFs) pryd bynnag y caiff trydan ei ddefnyddio neu ei drawsyrnu. Mae gwifrau yn y cartref, offer a chyflenwad trydan i gyd yn ffynonellau. Felly, maen nhw o'n hamgylch ni drwy'r amser mewn bywyd modern. Mae llinellau uwchben yn ffynhonnell, ond dim ond un o lawer. Yr amlygiad mwyaf posibl o dan y llinell uwchben yw 38.9 microtesla, sy'n debyg i'r hyn y byddech chi'n ei ddisgwyl wrth ddefnyddio sychwr gwallt neu o gerdded yn agos at ficrodon pan fydd yn coginio. Mae terfynau ar waith i'n diogelu ni i gyd rhag amlygiad EMF. Mae'r terfynau hyn wedi bod yn seiliedig ar adolygiadau gofalus o'r wyddoniaeth gan arbenigwyr annibynnol, sy'n argymhell lefelau diogel o amlygiad i'r cyhoedd. Y terfyn amlygiad i aelodau'r cyhoedd yw 360 microtesla, felly hyd yn oed os ydych chi'n sefyll yn uniongyrchol o dan y llinell uwchben, dim ond cyfran fach o'r terfyn yw'r lefelau. Ar ôl degawdau lawer o

ymchwil a channoedd o filiynau o bunnau yn cael eu gwario wrth ymchwilio i'r mater, nid oes unrhyw effeithiau iechyd wedi'u cadarnhau o dan y terfynau amlygu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.emfs.info/

C **Sut y byddwch chi'n cefnogi'r rhai y mae'n debygol y bydd y prosiect yn effeithio arnynt yn uniongyrchol?**

A Mae aliniad y llwybr ddrafft yn croesi drwy ardaloedd o dir amaethyddol ac mae sawl eiddo unigol gerllaw. Rydym yn deall y gallai'r rhai y mae ein cynigion presennol yn effeithio arnynt gan gynnwys perchnogion tai a thirfeddianwyr fod â phryderon. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw effeithiau'n cael eu lliniaru cymaint â phosibl ac rydym yn awyddus i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf roi eu hadborth i ni. Mae ein tîm tiroedd ar gael i gwrdd â pherchnogion tai a thirfeddianwyr. Os oes gennych fuddiant mewn tir y mae ein cynigion yn effeithio arno ac nad yw ein tîm tir wedi cysylltu â chi eto, cysylltwch â ni.



Ynglŷn â'r cynigion

C Sut byddwch chi'n digolledu tirlfeddianwyr sydd ag offer ar eu tir?

A Rydym yn cydnabod y gallai fod gan dirfeddianwyr bryderon am ein cynigion ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda nhw i sicrhau eu bod yn deall ein cynigion ac i leihau'r effeithiau. Byddwn yn darparu taliadau hawddfrint i berchnogion tir yr effeithir arnynt, gellir dod o hyd i fanylion am hyn ar ein gwefan; greengentowyteifi.com/cy/y-prosiect/tirfeddianwyr/

C A fyddai'r prosiect yn effeithio ar werth eiddo?

A Rydym wedi ystyried lleoliad cymunedau ac eiddo unigol wrth ddatblygu aliniad y llwybr drafft gan geisio osgoi ardaloedd penodol neu leihau effeithiau, lle gallwn. Gallwch ddarllen mwy am yr aliniad yn ein llyfryn ymgynghori sydd ar gael ar ein gwefan. Mae aliniad y llwybr drafft yn dal yn agored i newid trwy adborth ac asesiad parhaus felly mae'n rhy gynnar i wybod yn union sut yr effeithir ar eiddo unigol.

Gwerthusodd astudiaeth a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024 ar gyfer Scottish Renewables gan BiGGAR Economics effeithiau posibl llinellau pŵer ar dueddiadau prisiau tai, gan edrych ar linell Beaulieu Denny - llinell foltedd uchel trwy ardaloedd gwledig yr Alban, a gwblhawyd yn 2015. Cynhaliodd BiGGAR Economics arolwg o werthwyr tai o ardaloedd o amgylch llinell Beaulieu Denny. Canfu'r astudiaeth fod y cyfnod ansicr yn ystod y broses gynllunio wedi cael rhywfaint o effaith ar y farchnad dai, ond pan adeiladwyd y llinell roedd tueddiadau'r farchnad dai ar hyd y llinell bŵer wedi adlewyrchu rhai'r awdurdodau lleol ehangach. Ffactorau macro-economaidd fu prif ysgogwyr twf prisiau tai ac nid yw'r llinell bŵer wedi cael unrhyw effaith amlwg ar brisiau tai. Mae llinell bŵer Beaulieu Denny yn ymestyn o Beaulieu, i'r gogledd o Inverness i Denny ger Falkirk. Mae'r prosiect hwn yn 137 milltir o hyd ac mae ganddo beilonau bron ddwywaith uchder y peilonau a gynigir ar gyfer Tywi Teifi. Mae'r adroddiad ar gael yma: [https://www.scottishrenewables.com/publications/%201714-house-prices-impact-of\[1\]beaulieu-denny-grid-infrastructure](https://www.scottishrenewables.com/publications/%201714-house-prices-impact-of[1]beaulieu-denny-grid-infrastructure)

C Pryd fydd y prosiect yn cael ei gwblhau?

A Rydym yn rhan cynnar iawn y prosiect, ond os cawn ganiatâd cynllunio, rydym yn rhagweld y bydd y llinell yn weithredol erbyn 2029.

C Beth yw cynllun Green GEN Cymru yn is-orsaf y Grid Cenedlaethol?

A Mae Green GEN Cymru yn cynnig cysylltu ag is-orsaf newydd 400kV Y Grid Cenedlaethol yn Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin. Rydym yn bwriadu gosod ceblau tanddaearol ar 2km o'r llwybr i mewn i'r is-orsaf i gyfyngu ar unrhyw effeithiau cronrus hwn a chysylltiadau eraill yn yr ardal.

C Pa arolygon fyddwch chi'n eu cynnal a phryd byddant yn digwydd?

A Byddwn yn cynnal arolygon amrywiol drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys daeareg, ecoleg a defnydd tir. Bydd y rhan fwyaf yn anymwrthiol (cerdded drosodd), ond ar gyfer rhai arolygon ymwrthiol efallai y bydd angen i ni ddrilio tyllau turio neu dyllau treialu. Dim ond ar adeg benodol o'r flwyddyn y gellir cynnal rhai arolygon ecolegol, neu gyda'r nos, pan fydd rhai rhywogaethau (fel ystlumod a madfallod) yn fwy egniol. Rydym yn gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr a deiliaid i sicrhau bod arolygon yn cael eu cynnal, lle bynnag y bo modd, ar adegau priodol a gyda chyn lleied o anghyfleustra â phosibl. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau cytundeb mynediad gwirfoddol gyda'r perchennog/meddiannydd lle bynnag y gallwn, ac fel arfer rydym yn cyhoeddi Holiadur Buddiant Mewn Tir (LIQ) ar yr un pryd i'n helpu i nodi pob parti sydd â buddiant cyfreithiol yn y tir.

C A oes gennych chi ganiatâd i gynnal arolygon?

A Ein dewis diwrthdro yw cytuno ar fynediad ar gyfer arolygon yn wirfoddol trwy drwydded arolwg. Os na ellir cytuno ar fynediad ar gyfer arolygon yn wirfoddol, gall Green GEN Cymru ddibynnu ar yr hawliau a roddir i ni o dan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, sy'n ein hawdurdodi fel awdurdod caffael.

C Trwy ganiatáu mynediad arolwg i'm tir, a fyddaf yn derbyn bod y prosiect yn mynd yn ei flaen?

A Nid yw caniatáu mynediad i Green GEN Cymru i dir ar gyfer arolygon peirianyddol, ecolegol ac amgylcheddol yn atal y tirlfeddianwr rhag cyflwyno sylwadau am y Prosiect nac yn dileu'r hawl i wneud sylwadau ar unrhyw ffurf.

Ynglŷn â'r cynigion

C Beth yw Cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)?

A Mae Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) yn fath o prosiect seilwaith mawr. Gan fod prosiect Tywi Teifi yn llinell drydan 132kV uwchben sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig, mae'n cael ei hyrwyddo fel DAC. Fel DAC, mae'r prosiect yn amodol ar lawer o ofynion gan gynnwys asesiad amgylcheddol trylwyr ac ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r gymuned a rhanddeiliaid.

Fel datblygwyr, byddwn yn cyflwyno cais i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i'w adolygu, cyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad terfynol.

Bydd adborth gan y cyhoedd, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a sefydliadau cenedlaethol yn ein helpu i ddatblygu dyluniad terfynol ar gyfer y prosiect. Byddwn hefyd yn cynnal rhagor o asesiadau technegol ac arolygon i lywio ein Hasesiad Effaith Amgylcheddol (AEA). Yna bydd yr AEA yn cael ei adrodd mewn Datganiad Amgylcheddol, sy'n nodi effeithiau posibl y prosiect ac unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig.

Cyn i ni gyflwyno cais i PEDW, bydd cyfnod ymgynghori statudol cyn ymgeisio, pan fydd pobl yn gallu adolygu a rhoi sylwadau ar y dyluniadau manwl a'r Datganiad Amgylcheddol drafft.


C Sut fydd fy adborth yn cael ei ystyried a pham ei fod yn bwysig?

A Mae eich adborth yn allweddol wrth ddylanwadu ar ein cynigion. Gall eich gwybodaeth leol ein helpu i ddeall unrhyw effeithiau a buddion posibl nad ydym efallai wedi'u hystyried yn ein gwaith hyd yma, ac i lywio ein gwaith wrth symud ymlaen. Gwrandawom ar yr hyn a ddywedoch chi yn ein hymgynghoriad cyntaf ac mae adborth gan gymunedau a rhanddeiliaid lleol wedi dylanwadu ar y cysylltiad. Mae dyluniad y cysylltiad yn dal i fod yn agored i ddylanwad, bydd eich adborth yn ein helpu i barhau i gadw effeithiau mor fychan ag y gallwn.

C Sut gallaf gyflwyno adborth ynghylch y cynigion?

A Cyflwynwch eich adborth drwy lenwi ffurflen adborth ar-lein ar ein gwefan <https://greengentowyteifi.com/cy/>, neu drwy anfon e-bost at info@greengentowyteifi.com neu drwy anfon adborth ysgrifenedig i RHADBOST Green GEN Cymru TT.





0800 915 2496



info@
greengentowyteifi.com



**FREEPOST
GREEN GEN
CYMRU TT**